**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf: SF/CS/3372/13

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA
E-bost: Dafydd.ellis-thomas@wales.gov.uk

05 Tachwedd 2013

Annwyl Dafydd

Cyfrifoldeb yr awdurdodau unedol a'r parciau cenedlaethol yw darparu gwasanaethau cynllunio o ddydd i ddydd. Yn achos yr awdurdodau unedol, mae'r cyllid ar gyfer darparu'r gwasanaethau hynny yn rhan o'r Grant Bloc a roddir iddynt gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyllid a roddir i awdurdodau'r parciau cenedlaethol gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon hefyd yn cynnwys symiau ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio. Mae'r ffioedd a delir i awdurdodau cynllunio lleol pan gyflwynir ceisiadau cynllunio yn ychwanegu at yr incwm hwnnw.

Mae'r gyllideb rhaglenni ar gyfer cynllunio yn ariannu elfennau allweddol eraill o'r system gynllunio a'r system rheoli adeiladu. Mae'r elfennau hynny'n amrywio o werthuso a datblygu polisïau a gweithdrefnau a fydd yn sail i ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth; gwaith ar lunio polisïau cynllunio, nodiadau cyngor technegol a chanllawiau ymarfer; i gyllid ar gyfer yr Arolygiaeth Gynllunio a Chomisiwn Dylunio Cymru, er enghraifft. Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys rhai ffrydiau ariannu sy'n gysylltiedig â chynllunio a rheoli adeiladu.

Er bod y gostyngiad arfaethedig o 13.5% yn y gyllideb rhaglenni ar gyfer 2014/15 yn gryn her, mae fy swyddogion wedi mynd ati i adolygu gwariant, gan gynnwys gwariant sy'n seiliedig ar alw, a gwariant ar drefniadau a dulliau cyflawni. Gan fod llai o alw am gyllid o rai o'r ffrydiau ariannu – er enghraifft, y lleihad yn y galw am gyllid o gronfa'r ardoll agregau oddi wrth gymunedau yr effeithir arnynt gan waith cloddio , bydd y dyraniad hwnnw'n cael ei leihau yn y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd disgwyl hefyd i sefydliadau sy'n cael eu hariannu drwy'r gyllideb gynllunio wneud arbedion effeithlonrwydd.

O ran y gwaith ar Fil Cynllunio (Cymru) yn 2014/15, swyddogion Llywodraeth Cymru fydd yn gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith hwnnw, ac felly ni fydd angen gwariant sylweddol o dan y gyllideb rhaglenni. Bydd ystyriaethau ariannol yn cael eu trafod yn y papur ymgynghori a fydd yn cyd-fynd â'r Bil drafft.

Carl

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*